



RHYBUDD O WNEUD GORCHYMYN DIDDYMU LLWYBR CYHOEDDUS 2014
DEDDF PRIFFYRDD 1980 ADRAN 118

CYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM

(Esclus Is y Clawdd (Rhan) 24 yng Nghymuned Esclus)

Gorchymyn Diddymu Llwybr Cyhoeddus 2014

Ar 15fed Gorffennaf 2015, cadarnhaodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam y Gorchymyn uchod a wnaed o dan adran 118 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

Effaith y Gorchymyn fel y'i cadarnhawyd yw diddymu'r llwybr troed cyhoeddus a ddangosir gan linell fras ddi-dor ar y map Gorchymyn ac fel y disgrifir yn Atodlen yr Hysbysiad hwn. Mae copi o fap y Gorchymyn ynghlwm wrth y Rhybudd hwn.

Mae copi o'r Gorchymyn fel y'i cadarnheir a map y Gorchymyn wedi eu gosod a gellir eu gweld yn rhad ac am ddim yn swyddfa Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Neuadd y Dref, Wrecsam ac yn y Swyddfa Bost, 18 Merlin Street, Johnstown o 9am tan 4.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener. Gellir cael copïau o'r Gorchymyn a'r map yn rhad ac am ddim o Neuadd y Dref, Wrecsam.

Os dymuna unrhyw berson a dramgwyddir gan y Gorchymyn gwestiynu ei ddilysrwydd neu unrhyw ddarpariaeth a gynhwysir yn y Gorchymyn, ar y sail nad yw o fewn pŵerau Deddf Priffyrdd 1980, fel y'i diwygiwyd, neu ar y sail bod unrhyw ofyniad o'r Ddeddf honno, fel y'i diwygiwyd, neu unrhyw reoleiddio a wnaed o dan y Ddeddf, heb gael cydymffurfiaeth mewn perthynas â'r Gorchymyn, yn unol â pharagraff 2 o Atodlen 2 y Ddeddf fel y'i cymhwysir gan baragraff 5 o Atodlen 6 y Ddeddf, gall ef neu hi wneud cais i'r Uchel Lys o fewn chwe wythnos o 20/7/15.

ATODLEN

Mae lled llawn y rhan honno o Esclus is y clawdd, llwybr cyhoeddus 24 yng Nghymuned Esclus a ddangosir gan linell fras ddi-dor, yn dechrau o'r gyffordd gydag Esclus is y clawdd, llwybr cyhoeddus 21 ym mhwynt A (SJ 3069 4676) ar fap y Gorchymyn ac yn parhau yn gyffredinol i'r de de-ddwyrain am tua 175 metr i'r groesfan wastad ym mhwynt B (SJ 3073 4660) ac yna'n parhau i'r de-ddwyrain am oddeutu 20 metr dros y groesfan wastad i'r gyffordd gydag Esclus is y clawdd, llwybr cyhoeddus 25 ym mhwynt C (SJ 3075 4658).

Dyddiedig 20 Gorffennaf 2015

Trevor Coxon
Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a Chwsmeriaid
Neuadd y Dref
Wrecsam LL11 1AY